OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3909 (Cy.321)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *4 Rhagfyr 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ionawr 2002* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion y Goron gan adrannau 6(4), 16(1)(a) ac (e), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), gan roi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol â'r Ddeddf honno â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol gan y Rheoliadau canlynol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Teitl, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001, deuant i rym ar 1 Ionawr 2002 a byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995

**2.** Diwygir Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995(**3**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â rheoliad 3.

**3.** Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 95/45/EC", ychwanegir y geiriau "and Directive 2001/50/EC" ar y diwedd(**4**).

### Diwygiadau canlyniadol

**4.**—(1) Caiff rheoliad 3 o Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000(**5**) ei hepgor.

(2) Yn y darpariaethau a restrir ym mharagraff (3), caiff cyfeiriadau at Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995, i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n gymwys i Gymru, eu cymryd fel cyfeiriad

(**1**) 1990 p.16; diwygiwyd adran 6(4) o'r Ddeddf gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p.40) a chan baragraff 10(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28) ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 17(1) gan baragraff 12(a) o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 (p.28) a diwygiwyd adran 48 gan baragraff 21 ohoni.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a freiniwyd yng Ngweinidogion y Goron, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1995/3124 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/1799 (Cy. 124)

(**4**) Cyfeirnod Cyfarwyddeb 2001/50/EC yw OJ Rhif L 190, 12.7.2001, t.14.

(**5**) O.S. 2000/1799 (Cy. 124)

at y Rheoliadau hynny fel y maent wedi'u diwygio gan Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000 a chan y rheoliadau hyn.

(3) Dyma'r darpariaethau y mae paragraff (2) yn cyfeirio atynt—

(a) Diffiniad “permitted colour” yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981(**6**);

(b) Diffiniad “additive” yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(**7**));

(c) Diffiniad “colour” yn Rhan ll o Atodlen 1 (categorïau o ychwanegion bwyd) i Reoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(**8**);

(ch) Diffiniad “colour” yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**9**)); a

(d) Diffiniad “the additives Regulations” yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(**10**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**11**)

*John Marek*

4 Rhagfyr 2001

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) O.S. 1981/1063; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3124
(**7**) O.S. 1984/1566; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3123, 1995/3124 a 1995/3187.
(**8**) O.S. 1992/1978; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3124.
(**9**) O.S. 1995/3187; y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) O.S. 1996/1499; y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.; gweler hefyd O.S. 1999/1136
(**11**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio ymhellach ar Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995, sy'n gymwys i Brydain Fawr.

Mae rheoliad 3 yn diweddaru cyfeiriad at Gyfarwyddeb 95/45/EC ynghylch purdeb penodol er mwyn ymdrin â'r diwygiad i'r Gyfarwyddeb honno a wnaed gan Gyfarwyddeb 2001/50/EC o ran y manylebau ar gyfer carotenau cymysg a beta-caroten.

Mae rheoliad 4 yn diweddaru cyfeiriadau at Reoliadau 1995 yn Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981, Rheoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984, Rheoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992, Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995 a Rheoliadau Labelu Bwyd 1996.

Nid oes arfarniad rheoliadol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i wneud mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.